(Sl. 1) Tîm yn Addoli (2)

Defosiwn agoriadol **(Sl. 2)** Cyd-ddarllen

O Arglwydd, una'n hysbryd ni ag Ysbryd Iesu Grist, dy Fab Di, a mab y dyn, ein Duw a'n Brawd; fel trwy yr undeb agos a bywiol hwnnw y dysgom ni i garu fel y carodd Ef, a bendithio fel y bendithiodd ef, a gweddïo fel y gweddïodd Ef.

Emrys ap Iwan

Rhagymadrodd

Croesawu pawb ac adolygu'r wers flaenorol cyn cyflwyno'r deunydd newydd.

(Sl.3) ADFYWIO ADDOLIAD

Addoliad fel cyfrwng i adfywio ein heglwysi.**(Sl.4)**

Y cyfrwng sylfaenol mae Duw yn ei ddefnyddio i adfywio ei Eglwys yw'r Addoliad. Yn yr addoliad mae'r Arglwydd yn siarad â ni ac yno y rhown ninnau ateb iddo mewn mawl a chyffes a gweddi. Gan mai yn ei haddoliad mae Duw yn cyfathrebu gyda'i Eglwys, yno hefyd mae hithau yn fwyaf agored i brofi o'i rym a'i nerth adfywiol. **(Sl.5)**



Fel dywedodd Vavasor Powell: **(Sl. 6)**

Trwy Weddi y llefara Duw wrthyf,
Trwy Fyfyrdod mae'n fy llenwi,
Trwy ganu Emynau mae'n fy ngwefreiddio,
Trwy ei Swper mae'n fy mwydo

(Sl.7)
Y mae bywyd yn ei holl gyflawnder yn addoliad. "Gwnewch bopeth er gogoniant i Dduw," medde Paul. Gellir meddwl am yr addoliad a roddwn i Dduw fel cylch bach oddi mewn i gylch ehangach bywyd yn ei gyfanrwydd.



(Sl.8) Yn wir, mae tri cylch i'n haddoliad Cristnogol: y cyhoeddus yn yr eglwys; y teuluol, yn ein cartrefi; y preifat, yn ein hystafelloedd. Y mae'r tri yn bwysig, ond mae'n wir i ddweud mai yr addoliad cyhoeddus yw'r allwedd i'r ddau arall. Ni ddylid creu bwlch rhwng yr addoliad cyhoeddus a'n defosiwn teuluol a phersonol. Y rheswm am hynny yw:

(Sl.9) PERYGLON EILUN-ADDOLIAD

Ystyr yr gair eilun (ail+llun = copi). Tristwch copi yw ei fod yn ein hamddifadu o'r gwreiddiol ei hun. Yn aml, nid ydynt ond copïau gwael o'n dyheadau dyfnaf ni wedi eu hymdaflu ar sgrin y nefoedd. Mewn oedfa gyhoeddus o dan arweiniad y Gair fe'n diogelir rhag creu delwau o'n heiddo ni ein hunain.

"Yr Arglwydd dy Dduw a addoli ac ef yn unig a wasnaethi", oedd rhybudd diflino Duw i'w bobl. Yr oeddent hwythau mewn perygl parhaus o ddisgyn i'r demtasiwn o addoli delwau o waith eu dwylo eu hunain.

Y bygythiad mwyaf i wir addoliad heddiw yw ein bod yn addoli delwau eraill yn lle addoli Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist. **(Sl 10 +)** Mae ein hoes yn rhoi pwyslais mawr ar feithrin ysbrydoledd personol a phreifat. Dywedir weithiau mai amcan defosiwn o'r fath yw rhoi i ni hunan-foddhad a hunan-ddedwyddwch. Ei drasiedi yw ei fod yn porthi'r hunan yn lle addoli Duw. Dyma rai o syniadau Pobl yr Oes Newydd sy'n addoli'r Fam Ddaear ac yn y blaen. Ond nid dyma yw addoliad Cristnogol.

(**Sl.11)** "A pheidiwch â chydymffurfio â'r byd hwn (yn eich addoliad)" medde Paul, "ond bydded ichwi gael eich trawsffurfio trwy adnewyddu eich meddwl, er mwyn ichwi allu canfod beth yw ei ewyllys ef, beth sydd dda a derbyniol a pherffaith yn ei olwg" (Rhufeiniaid 12:2).

(*Amser trafod*) **(Yn ôl i Sl. 10)**
Pa mor fygythiol yw eilunod i'n haddoliad ni heddiw? Beth yw'r delwau mae pobl yn eu haddoli heddiw? Beth yw'r eilunod sy'n llenwi calonnau dynion a merched ac yn eu rhwystro rhag addoli'r gwir Dduw? Pa eilunod sydd o fewn ein heglwysi sy'n ein rhwystro ninnau rhag profi adnewyddiad?

I enwi rhai o'r eilunod: ariangarwch (beth sydd yn newydd?); chwaraeon; y sêr – boed astroleg neu ddelwau byd adloniant.

Geiriau Iesu a Paul: “Ni allwch wasanaethu Duw a Mamon (Arian)” Mathew 6:24.
“Pa gytundeb sydd rhwng teml Duw ac eilunod? Oherwydd nyni yw teml y Duw byw.” 2 Cor. 6:16 (mae’r adran 6:14 -18 yn allweddol bwysig).
(Darllen y geiriau hyn).

(Sl 12) Y GWIR DDUW

Dyneswn at y Tad trwy ei Fab yng ngrym yr Ysbryd. A dyma ni yn y geiriau hyn nid yn unig wedi disgrifio pa fodd mae dod at Dduw, ond hefyd wedi diffinio pa fodd mae Duw yn dynesu atom ni. Fel y dywedodd Cypriano Vagaggini: “Daw pob rhodd ddaionus oddi wrth y Tad, trwy gyfrwng y Crist, ei Fab ymgnawdoledig, ym mhresenoldeb yr Ysbryd Glân; yr un modd, ym mhresenoldeb yr Ysbryd Glân, trwy gyfrwng Iesu Grist...rhaid i bopeth ddychwelyd at y Tad” (*The Theological Dimension of the Liturgy*). Y gwirionedd hwn yw sylfaen ein holl gymundeb â Duw a’n dibyniaeth arno. Dyma yw ystyr ei addoli mewn “Ysbryd a gwirionedd.”**(Sl.13)**

Yn enw’r Tad a’r Mab a’r Ysbryd Glân y cawsom ein bedyddio, dyma yw ei enw ac felly addoli’r un Duw sy’n cael ei adnabod fel Tad, Mab ac Ysbryd Glân a wnawn. Os nad ydym yn gwneud hynny yr ydym yn addoli eilun neu ddelw o’n gwneuthuriad ein hunain.

Trefn yr Oedfa (Sl 14)

Mae trefn yn bwysig mewn oedfa. Er mor ddirmygus yr ydym erbyn hyn o’r gwasanaeth traddodiadol yn ein heglwysi ymneilltuol, y mae iddo ei bwrpas a’i brydferthwch. Ei uchafbwynt yw pregethiad y Gair gan mai’r nod yw gwrando ar air Duw ac ymateb iddo yn ein bywydau.

Er hynny, mae perygl i ni fel eglwysi ymneilltuol, syrthio i rigol a chaethiwed i draddodiadau yr ydym wedi eu hetifeddu. Collwyd y rhyddid gogoneddus hwnnw yn ein haddoliad y brwydrodd y tadau gymaint i’w ddiogelu ac aethom yn unffurf, sychlyd a marwol. Ond cofier mai “rhyddid i addoli fel y dylem addoli, ac nid rhyddid i addoli fel y mynnwn yw’n rhyddid ni.”

Y mae tair adran allweddol i oedfa: **(Sl 15)**

Y PARATOAD GWEINIDOGAETH Y GAIR YR YMATEB

Y PARATOAD

Wrth ddynesu at orsedd Duw rhaid dechrau yn y man priodol, sef gyda Mawl. Moliannu Duw yw nod uchaf bywyd meidrolion ar y ddaear. Cyfarch “y Duw sanctaidd a hollalluog, a bod rheidrwydd arnom i wneud hynny yn ostyngedig, yn ddidwyll ac yn weddus” (Elfed ap Nefydd Roberts, *O Fewn ei Byrth*). Ger bron gorsedd Duw yr ydym hefyd yn cydnabod nad ydym yn deilwng i fynegi ei fawl oherwydd ein pechod. Gofynnir am faddeuant a chyhoeddi gollyngdod trwy aberth Crist. Rhan allweddol o’r dynesu at Dduw yw canu a seinio ei glod. Ein dull traddodiadol yw canu emynau. Gwaetha’r modd collasom yr arfer o ganu Salmau.

Nod y cyfan yw paratoi ein meddyliau a’n calonnau i dderbyn Gair Duw ar ein cyfer.

GWEINIDOGAETH Y GAIR (Sl 16)
Ni pherthyn braint uwch i'n haddoliad na dod â phobl i glyw Gair Duw. Y gair hwn, wedi'r cwbl yw Duw yn ein cyfarch.

(Sl 17) ADNOD ALLWEDDOL

Mae gair Duw yn fyw a grymus: y mae'n llymach na'r un cleddyf daufiniog, ac yn treiddio hyd at wahaniad yr enaid a'r ysbryd, y cymalau a'r mêr; ac y mae'n barnu bwriadau a meddyliau'r galon.

Hebreaid 4:12

Y mae darllen y gair yn glir a dealladwy yn gofyn am baratoad manwl. Yr un modd gyda'r bregeth, neu'r esbonio a'r cymhwyso ar y gair, ar gyfer bywydau bob dydd y gwrandawyr.

Mewn oes hunan-ddigonol a balch, oes sy'n amharod i wrando oherwydd ei bod yn credu bod yr atebion i gyd ganddi hi, mae'n bwysicach nac erioed dod â phobl i glywed cyfarchiad Duw. I glywed y neges ei fod Ef yn dymuno bod yn Dduw iddynt a'u galw yn bobl iddo. Yn yr ystyr hwn, y pregethwr sy'n meddu'r neges mwyaf gobeithiol yn yr holl fyd a'i fraint yw cyhoeddi honno yn ffyddlon.

YMATEB
O arwain pobl i glywed cyfarchiad Duw, mae gobaith am ymateb. "Wedi clywed y cyfan," meddai'r Pregethwr, "dyma swm y mater: ofna Dduw a chadw ei orchmynion, oherwydd dyma ddyletswydd pob un"(Pregethwr 12:13). Ymateb trwy ufuddhau i Air Duw yw'r nod. Ceir gwahanol elfennau i'r ymateb: mae'r casgliad neu'r offrwm yn rhan allweddol ohono oherwydd rhoddir cyfle i ni roi o'n harian yn ôl ein gallu i achos Crist. Nid rhywbeth i'w wneud yn ddiseremoni mohono, ond rhan allweddol o'n hufudd-dod a'n hymrwymiad i wasanaethu Duw.

Rhan bwysig o'r ymateb yw ymgysegriad mewn gweddi ac yma y dylai'r weddi hiraf fod. Gweddi sy'n cynnwys nid yn unig cyflwyno ein hunain i wasanaethu Crist, ond hefyd i gofio am anghenion y byd. "Y mae addoli yn peidio â bod yn addoli os esgeulusir y byd a gwadu ein cyfrifoldeb amdano" (E Stanley John, *Addoli,* Cymru i Grist). Y mae Crist yn Arglwydd bywyd yn ei gyfanrwydd ac nid oes cornel o fywyd nad yw ef yn ei hawlio. Mynegi'r gwirionedd hwn wneir mewn oedfa a cheisio byw hynny yn ein bywydau bob dydd.

Y PARATOAD	**GWEINIDOGAETH Y GAIR**	**YR YMATEB**
Galwad i Addoli	Darllen y Gair	Yr Offrwm
Gweddi o fawl a	Gweddi fer am oleuni ar y Gair	
Diolch	Darllen o'r Hen Destament	Emyn
Emyn/Salm	Darllen o'r Testament Newydd	Gweddi o Ymgysegriad
Gweddi o Gyffes	Emyn	ac
Emyn	Pregeth	Eiriolaeth
		Y fendith

Oddi mewn i'r tair adran hon y mae gryn le i amrywiaeth, ond mae'r tair elfen yn ganolog. Dylai pob oedfa neu wasanaeth geisio cadw'r elfennau hyn, hyd yn oed oes yw yn oedfa deulu neu oedfa blant. Cofier nad lle i ddangos ein dyfeisgarwch ein hunain yw'r oedfa ond cyfle i addoli Duw yn y dull a'r modd mae ef am i ni ei ogoneddu.

Sylwer ar ddau beth yn y patrwm uchod: mae'r gweddïau yn fyrrach ac wedi eu gwasgaru trwy'r gwasanaeth. Arfer cymharol ddiweddar yn hanes litwrgi'r eglwys yw'r weddi hir ar y canol. Nid nad yw honno yn addas ac yn briodol ar adegau, er hynny, mae rhinwedd mawr mewn gwasgaru'r gweddïau trwy'r oedfa gyfan.
Yn ail, mae'r darlleniad a'r bregeth yn agosach at ei gilydd am eu bod yn perthyn i weinidogaeth y Gair.

Gweithdy 2 – Arbrofi gydag addoli (Sl. 18 a 19).
Defnyddio'r sleid o Eicon Rublev i fyfyrio arno a llunio gwasanaeth ar y thema Adfywio ein Addoliad.

Hanes yr Eicon
Mae'r eicon yn darlunio stori'r tri ymwelydd a ddaeth at Abraham a Sarah (Genesis 18). Daeth y tri i ddweud y newydd y byddai ganddynt fab ymhen blwyddyn – newyddion a barodd i Sarah chwerthin.
Gwelodd ysbrydoledd Eglwys y Dwyrain y tri hyn fel darlun o'r Drindod. Darlunnir hwy yn eistedd oddi amgylch i fwrdd ac arno gwpan cymun. Mae'r person ar y dde yn gwisgo gwyrdd a glas – gwyrddni'r ddaear a glesni'r nen. Hwn yw'r Ysbryd Glân sy'n dod o'r nef er mwyn cludo'r dwyfol i'r ddaear. Ef yw'r un sy'n ein cyflwyno i'r Drindod.

Yn y llun mae'r Ysbryd yn gogwyddo ei ben tuag at yr un sydd yn y canol sydd hefyd wedi ei wisgo mewn gwisgoedd llachar. Mae yntau mewn gwisg werdd i gynrychioli'r ddaear, ond hefyd mewn mae ganddo fantell borffor, sef gwisg ymherodr. Hwn yw Iesu – yr un a ddaeth o'r nef, ond sydd yn awr wedi ei ddyrchafu mewn gogoniant wedi concro marwolaeth. Mae ei ben yntau yn gogwyddo tua'r person arall sydd yn y darlun. Mae'r person ar y chwith wedi ei wisgo mewn gwisgoedd llachar clir fel yr grisial am fod ganddo ogoniant mewnol sy'n disgleirio'n dragwyddol. Hwn yw y Tad – ffynhonnell bywyd ac awdur y cymod. Mae'r ddau ar y dde yn mynegi'r moliant i'r un ar y chwith yn y geiriau "Abba, Dad". Gan ei fod yn gylch agored, cawn ninnau ein dwyn i mewn i gylch y moliant a braint yr eglwys trwy'r ddaear a'r nef yw adleisio yr un weddi, "Abba, Dad."

Llunio oedfa ar y Thema Adfywio Addoliad

- Nodwch enghreifftiau o'r Beibl lle mae Duw wedi trawsnewid amgylchiadau ei bobl, e.e. Genesis 18; Salm 126; Eseia 62; Ioan 20:19-25; Actau 2.
- Nodwch enghreifftiau o newid sydyn ym mywyd aelodau'r dosbarth.
- Nodwch y diffyg newid sydd y mywydau aelodau'r eglwysi.
- Casglwch emynau sy'n sôn am Dduw yn bywhau.
- Lluniwch neu gasglwch weddïau addas ar y thema gan gofio am waith allweddol y Ysbryd Glân.

Y Paratoad: Darlleniadau ac emynau, Salmau a chaniadau addas i ddynesu at Dduw

Gweinidogaeth y Gair: Darlleniadau addas o'r Hen destament ac o'r Newydd.
Amlinelliad o neges ar sail y thema hon.

- Pwysleisio mai gwaith Duw yw adfywio ei bobl (e.e. Abraham a Sara)
- Anallu pobl i newid eu hamgylchiadau yn eu nerth eu hunain
- Enghraifft o Dduw yn newid calonnau pobl neu amgylchiadau arbennig yn y Beibl
- Enghreifftiau o brofiadau pobl mewn hanes neu tystiolaeth aelodau'r dosbarth.
- Gallu Duw i drawsnewid ein hamgylchiadau ninnau

Ymateb y gynulleidfa
- Llunio gweddïau o ymgysegriad
- Casglu emynau addas
- Cyffes neu gyfamod i'n clymu ynghyd.